

Digimap for Schools

Gemau a Storïau

Chwe syniad cyflym ar gyfer gweithgareddau cynradd

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth

Cynradd



This is one of a series of teaching resources for use with Digimap for Schools. For more details about this service, visit <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth Digimap for Schools

Mae plant ifanc yn gallu cael llawer o hwyl yn chwarae gemau gan ddefnyddio mapiau wrth ymarfer eu sgiliau defnyddio, darllen a chreu mapiau ar yr un pryd. Dyma ambell syniad.

Gemau

1. Dod o hyd i Dedi

Cuddiwch dedi ar dir yr ysgol a darparu map graddfa fawr sy'n cyfateb gan ddangos ei leoliad. Pa grŵp sy'n dod o hyd iddo gyntaf? Mae'n bosibl lamineiddio set o fapiau o dir yr ysgol ac ail-chwarae'r gêm hon gan ddefnyddio smotiau gludiog i ddangos lleoliad y dedi.

2. Jig-sos

Argraffwch a lamineiddiwch fapiau yn cynnwys yr ardal leol, a thorrwch y mapiau yn 9 darn (3x3), er enghraifft. Rhowch y darnau mewn waledi â sip a'u defnyddio fel gemau gan sicrhau eich bod yn gwneud digon o becynnau er mwyn eu defnyddio nhw ar gyfer gwaith grŵp a thrafodaethau dosbarth cyfan fel rhan o sesiynau strwythuredig. Gofynnwch i'r disgyblion ddewis sgwâr o'u pecyn a'i ddisgrifio i'w partner. Wedyn, heriwch y grwpiau i weld pwy sy'n gallu gosod eu map gyflymaf. Mae Digimap for Schools yn caniatáu i chi argraffu mapiau hyd at faint A3 os oes angen mapiau mwy o faint arnoch. Gwnewch amrywiaeth o jig-sos gan ddefnyddio mapiau o raddfeydd gwahanol.

Amrywiaethau

- Cadwch un o'r sgwariau jig-so wrth gefn a rhoi sgwâr gwag i'r disgyblion yn ei le. Gofynnwch iddynt geisio darlunio'r hyn maen nhw'n credu ddylai fod ar y sgwâr gwag.
- Gwnewch i'r disgyblion eistedd cefn wrth gefn. Bydd un disgybl yn disgrifio'r sgwâr a'r llall yn darlunio'r disgrifiad ar ddarn gwag o bapur.
- Gofynnwch i'r disgyblion ddewis sgwâr o'r map. Adroddwch nodweddion o'r allwedd berthnasol tra bod y disgyblion yn gwirio i weld a yw'r nodwedd benodol ar eu sgwâr. Yr unigolyn cyntaf i ddod o hyd i dri o'r nodweddion ar eu map sy'n ennill.

3. Bingo Nodweddion Map

Crëwch set o gardiau bingo ar gyfer y dosbarth gan ddefnyddio'r wefan: <http://osric.com/bingo-card-generator/>. Yn y blwch mewnbynnu gair, rhowch restr o nodweddion wedi'u henwi y mae'n bosibl dod o hyd iddynt ar fap penodol, er enghraifft map ar raddfa o 1:25 000 wedi'i ganoli ar eich ysgol. Trwy benderfynu faint o sgwariau grid a pha nodweddion map i'w cynnwys, mae'n bosibl amrywio pa mor anodd yw'r gweithgaredd ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. Wedyn, gallwch ddewis faint o gardiau rydych chi eisiau eu creu a'u hargraffu nhw. Rhowch gopi o'r map sy'n cynnwys y nodweddion i'r grwpiau o ddisgyblion, ynghyd ag un o'r cardiau bingo. Y grŵp cyntaf i ddod o hyd i'r holl nodweddion ar ei map i weiddi 'Bingo'!

Estyniad

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mae'n bosibl gwneud y dasg hon yn anoddach neu ei gosod fel gwaith cartref trwy ofyn i'r disgyblion ysgrifennu cyfeirnod grid pob nodwedd a enwir ar y cerdyn bingo ar ôl iddynt ddod o hyd iddo.

Gallwch gynnwys rhai nodweddion nad ydynt ar y map! Rhybuddiwch y disgyblion o hynny.

Gwnewch waith maes yn y gymdogaeth, er enghraifft mewn parc lleol neu ar y stryd fawr. Gofynnwch i barau o ddisgyblion dicio'r nodweddion maen nhw'n dod o hyd iddynt ar gerdyn bingo ac i gofnodi eu lleoliadau ar fapiau wedi'u hargraffu o'r ardal. Fel arall, gofynnwch iddynt eu cofnodi nhw ar y map yn electronig trwy ddefnyddio'r bar offer nodiadau (Annotations Toolbar), os oes ganddynt fynediad at ddyfeisiadau llaw, er enghraifft llechi neu iPads.

Heriwch y disgyblion i greu eu cardiau bingo eu hunain.

4. Pwynt Trafod

Rhowch fap gwahanol i bob grŵp i'w astudio ac amser iddynt baratoi rhestr o bethau i'w ddweud amdano. Cyflwynwch her wedi'i hamseru lle mae pob grŵp yn enwebu aelod i ddarllen eu pwyntiau. Y grŵp sy'n cyflwyno'r wybodaeth fwyaf cynhwysfawr sy'n ennill.

5. Trefi fesul deg

Pob pâr i gymryd tro i ddewis tref ym Mhrydain Fawr gan ddefnyddio map o'r un raddfa. Yna, mae'r partner yn gofyn deg cwestiwn er mwyn ceisio dyfalu'r dref tra bod yr unigolyn arall yn ateb 'ie' neu 'na' yn unig. Rhaid bod y cwestiynau mewn perthynas â chyfeiriad neu leoliad y lle yn unig, er enghraifft 'A yw'r lle yn Ne Cymru? A yw'r lle i'r de o Sheffield? Ydy'r lle yn agos at yr arfordir?' Fel arall, mae'n bosibl chwarae'r gêm hon yn y dosbarth.

6. Map yr wythnos

Bob wythnos, arddangoswch fap maint A4 neu A3 gwahanol ar wal y dosbarth yn cynnwys digon o le i'r disgyblion ychwanegu sylwadau bob dydd. Gallwch wahodd sylwadau agored neu wedi'u ffocysu, er enghraifft, fydech chi'n hoffi byw fan hyn a pham? Crynowch y sylwadau ar ddiwedd yr wythnos. Cadwch gofnod dosbarth o'r mapiau hyn.

7. Gweld y gwahaniaeth

Yn unigol neu mewn parau gan ddefnyddio'r map hanesyddol o'r 1890au a/neu'r 1950au, gofynnwch i'r dysgyblion adnabod newidiadau sydd wedi digwydd yn yr ardal leol o gymharu â heddiw. Rhowch amser penodedig i'r myfyrwyr adnabod y newidiadau. Bydd yr unigolyn neu bâr sydd wedi adnabod y mwyaf o newidiadau yn ennill.

Gallai newidiadau o'r fath gynnwys cynnydd mewn tai, llai o fannau agored a chynnydd o ran ffyrdd.

8. Storiâu

Mae storiâu yn gyd-destunau pwerus ar gyfer creu a defnyddio mapiau, boed trwy chwedlau neu straeon go iawn, ac mae mapiau yn ddeunydd darllen ardderchog. Argraffwch a lamineiddiwch ddetholiad o fapiau a'u rhoi nhw yn y cornel darllen er mwyn galluogi'r plant i edrych arnynt a'u darllen yn ystod amser darllen penodedig.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Defnyddiwch fapiau i adrodd ac i ddarlunio straeon ble mae hynny'n bosibl. Er enghraifft, crëwch fapiau i gyd-fynd â straeon traddodiadol trwy ddewis lleoliadau ac ychwanegu labeli a marcwyr i ddangos rhannau pwysig y stori. Gallech geisio dod o hyd i leoliadau go iawn ar gyfer straeon traddodiadol, er enghraifft, y Tri Mochyn Bach, Hansel a Gretel, Sinderela a'r Hugar Fach Goch, a'u defnyddio nhw i gynorthwyo â thasgau ysgrifennu stori ac ailadrodd straeon.

Yn ogystal, mae gan y Geographical Association ganllawiau o ran defnyddio mapiau i adrodd straeon:

Mapiau a straeon i blant rhwng 4 a 7 oed:

www.geography.org.uk/projects/primaryhandbook/mapsandstories/4-7

Mapiau a straeon i blant rhwng 6 a 9 oed

www.geography.org.uk/projects/primaryhandbook/mapsandstories/6-9

Mapiau a straeon i blant rhwng 8 ac 11 oed

www.geography.org.uk/projects/primaryhandbook/mapsandstories/8-11

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2016

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol Creative Commons Attribution

